

## Cwmpas

Cyflwynir y cymhwyster TAR (Cymru) gan bartneriaeth sy'n cynnwys Y Brifysgol Agored, y Consortia Rhanbarthol, Ysgolion Partner Arweiniol, Ysgolion Cyflogi ac Ysgolion Cyswllt yng Nghymru, a Llywodraeth Cymru. Er mwyn codeiddio'r berthynas rhwng y partion hyn, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sydd wedi'i lofnodi ar y cyd, ar waith.

Dylech ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd TAR hwn ar y cyd â'r [Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrrwyr](#) am wybodaeth ynghylch y data personol rydym yn eu casglu ar ein holl fyfyrwyr, a'r hyn a wnawn gyda nhw, gan gynnwys eich hawliau fel testun data.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r camau ychwanegol y mae'r Brifysgol Agored yn eu cymryd mewn perthynas â data personol, yn ymwneud yn benodol â'r cymhwyster canlynol:

- Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) (Cymru) (cod y cymhwyster K36)

Mae'n gymwys i ymgeiswyr a myfyrwyr.

Y Brifysgol Agored yw rheolydd y data personol rydym yn eu casglu.

Mae'r gweithgareddau hyn yn rhan o'n tasg gyhoeddus i gyflwyno cymwysterau addysg uwch.

## Pa ddata personol ychwanegol rydym yn eu casglu?

Yn ogystal â'r wybodaeth personol y mae'r Brifysgol yn ei chasglu ac yn ei chadw, fel y nodir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrrwyr, byddwn hefyd yn casglu data a gaiff eu storio ar wahân i unrhyw gofnodion eraill sydd gan y Brifysgol amdanoch.

Rydym yn casglu ac yn prosesu ystod eang o ddata personol arnoch er mwyn darparu ein gwasanaethau i chi, darparu cymorth, rheoli ein gweithrediadau mewn ffordd effeithiol, a bodloni ein gofynion cyfreithiol a chytundebol mewn perthynas â rhaglen TAR.

Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys data ar dderbyn a dethol myfyrwyr, ymgysylltu â'r modiwlau a gwneud cynnydd ar y rhaglenni, gwaith achos Addasrwydd i Ymarfer, a chwblhau cymhwyster a chael cydnabyddiaeth broffesiynol.

Drwy gydol y broses o wneud cais i ymuno, a thrwy gydol eich astudiaethau ar raglen TAR, gall eich gwybodaeth gael ei rhannu hefyd â'n partneriaid allweddol, fel sy'n angenrheidiol i gyflawni eich contract i astudio gyda ni, fel rhan o'n tasg gyhoeddus, neu fel rhan o'n gofyniad cyfreithiol a chytundebol gyda'n rhanddeiliaid allweddol ar gyfer y gwaith o gyllido, cyflwyno a monitro'r TAR.

Byddwn yn rhannu'r data personol hyn fel a ganlyn:

<b>Data ymgeisydd</b>	
<p><b>Ysgolion Partner</b> er mwyn ein galluogi i gofrestru, sy'n fudd dilys</p>	<p>Rydym yn casglu data ar geisiadau fel rhan o'r prosesau recriwtio, derbyn a chofrestru er mwyn pennu bod ymgeisydd yn bodloni gofynion mynediad y rhaglen ac y gall gael cynnig lle ar y rhaglen, ac er mwyn prosesu ei gofrestriad ar y rhaglen a modiwlau cyfansoddol.</p> <p>Caiff y ddogfennaeth derbyn a dethol a gyflwynir i'r Brifysgol Agored ei rhannu â'r Ysgolion sy'n cymryd rhan yn y broses ddedol ar gyfer cyfweiliadau.</p> <p>Bydd y Tîm TAR yng Nghaerdydd yn hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus ac yn cofnodi'r canlyniadau at ddibenion monitro.</p> <p>Caiff data ar berfformiad ymgeiswyr eu rhannu ar lefel gyfanredol.</p>
<b>Data myfyrwyr</b>	
<p><b>Ysgolion Partner</b> at ddiben monitro cyrhaeddiad a chynnydd myfyrwyr, sicrhau y darperir cymorth ac ymyrraeth ychwanegol a dargedir er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i fodloni disgrifyddion Safon Athro Cymwysedig (SAC), cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg, a chyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a chytundebol</p>	<p>Casglwn ddata ar berfformiad academiaidd, cynnydd ac ymgysylltiad myfyrwyr ar raglen cymhwyster TAR(Cymru). Caiff y data hyn eu defnyddio at amrywiaeth o ddibenion gan gynnwys asesu cynnydd a chyrhaeddiad myfyrwyr mewn perthynas ag aseiniadau academiaidd a bodloni disgrifyddion</p> <p>Statws Athro Cymwysedig (SAC)</p> <p><a href="#">Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth Cymru</a></p> <p>Gall gwybodaeth am eich iechyd ac unrhyw anabledd a ddatganwyd gael ei rhannu ag Ysgolion yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu addasiadau rhesymol. Hefyd, gall data gael eu rhannu fel nad ydych chi nac aelodau o'r cyhoedd yn cael eich peryglu wrth i chi gyflawni lleoliad.</p> <p>Gall gwybodaeth a thystiolaeth sy'n ymwneud â'ch ymddygiad gael eu rhannu ag unrhyw aelod o staff yn yr ysgol neu'r Brifysgol Agored lle y gall effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol, addasrwydd i ymarfer, cyflogaeth barhaus, neu eich cyfranogiad parhaus mewn unrhyw amgylchedd ymarfer dysgu. Mae gan eich Ysgol Gyflogi, fel eich cyflogwr, yr hawl i ddelio â materion cyflogaeth o dan ei gweithdrefnau ei hun, yn annibynnol ar <a href="#">Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer</a> Y Brifysgol Agored – fodd bynnag, gall y weithdrefn hon hefyd gael ei defnyddio mewn perthynas â'r materion hynny.</p> <p>Gall Y Brifysgol Agored hefyd rannu gwybodaeth am ymchwiliad addasrwydd i ymarfer ag Ysgol Gyflogi hyd yn</p>

	<p>oed lle nad yw'r mater yr ymchwilir iddo yn un yr ystyrir ei fod yn peri risg ddybryd.</p> <p>Bydd Cydlynwyr Ysgol, Tiwtoriaid Ymarfer a Mentoriaid mewn Ysgolion Partner yn rhannu gwybodaeth rhyngddyn nhw eu hunain ac â'r Brifysgol Agored drwy ffurflenni a dulliau adrodd sefydledig TAR.</p>
<p><b>Llywodraeth Cymru</b> at ddibenion cyllido ac er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a chytundebol</p>	<p>Perfformiad academiaidd, cynnydd ac ymgysylltiad myfyrwyr ar raglen cymhwyster TAR (Cymru), ar lefel cynllun ac ar lefel unigol.</p>
<p><b>Partneriaeth TAR, gan gynnwys Consortia Rhanbarthol</b> er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a chytundebol</p>	<p>Bydd gwybodaeth bersonol am eich astudiaethau, gan gynnwys enw, cyfeiriad, cymwysterau, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), data ar ethnigrwydd a chyflogaeth, a gwybodaeth berthnasol arall yn cael ei rhannu ymhlith y sefydliadau hyn. Bydd pob sefydliad yn cadw unrhyw wybodaeth a rennir yn ddiogel. Dim ond yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), <a href="#">Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr</a> Y Brifysgol Agored, a Hysbysiad Preifatrwydd Atodol TAR (neu'r polisi lleol) y bydd sefydliad yn ei phrosesu, ac ni fydd yn rhannu data o'r fath ag unrhyw drydydd parti heblaw am yr Awdurdod Rheoleiddio os oes angen.</p> <p>Caiff data ar berfformiad myfyrwyr eu rhannu ar lefel gyfanredol.</p>
<p><b><u>Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)</u></b> (y corff rheoleiddio proffesiynol) at ddibenion rheoleiddio a chofrestru proffesiynol</p>	<p>Ar ôl i chi gwblhau eich cymhwyster TAR (Cymru) yn foddhaol, sy'n darparu "Statws Athro Cymwysedig" (SAC), bydd Y Brifysgol Agored yn cysylltu â CGA i gadarnhau eich bod yn gymwys i wneud cais iddo i gofrestru. Gellir trosglwyddo hyn yn uniongyrchol i gyflenwr trydydd parti a ddefnyddir gan CGA.</p> <p>Lle y bo angen, bydd Y Brifysgol Agored yn hysbysu Cyngor y Gweithlu Addysg am unrhyw fater sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer, yr ymchwilir iddo, yn ogystal â chanlyniad unrhyw ymchwiliad.</p>

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol?

Os byddwn yn casglu eich gwybodaeth bersonol, mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y cyfnod o amser y byddwn yn ei chadw, gan gynnwys diben defnyddio'r wybodaeth a'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

Mae gennym amserlen ar gyfer cadw data a byddwn ond yn cadw cofnodion lle gellir adnabod unigolion cyhyd ag y bo iddynt ddiben cyfreithiol neu ddiben busnes. Os na fydd eich cais i ymuno â rhaglen TAR yn llwyddiannus, byddwn yn cadw data personol cysylltiedig am dair blynedd ar ôl i'r broses gwneud cais orffen.

Os bydd eich cais i ymuno â rhaglen TAR yn llwyddiannus, byddwn yn ychwanegu eich gwybodaeth gwneud cais at eich cofnod myfyriwr, am fod angen gwneud hyn yn unol â'n contract gyda chi. Byddwn yn cadw gwahanol elfennau eich cofnod fel y nodir yn ein Hamserlen Cadw Data.

Cyfeiriwch at [Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfirwyr Y Brifysgol Agored](#) am ragor o wybodaeth am gadw data personol myfyrywyr, er enghraifft manylion eich trawsgrifiad academaidd.